

Arolygiad o Bractis Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa Gyffin / Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr

Dyddiad arolygu: 12 Medi 2019

Dyddiad cyhoeddi: 13 Tachwedd 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	18
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	28
4.	Beth nesaf?	32
5.	Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu.....	33
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	34
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	35
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	38

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Gyffin yn Woodlands, Gyffin, Conwy, LL32 8LT, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 12 Medi 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o reolwyr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), adolygwyr cymheiriaid meddygon teulu a rheolwyr practis ac adolygwr lleyg.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o feddygon teulu yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith yn y practis i hybu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w gleifion.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom gan y cleifion eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarparwyd iddynt.

Fodd bynnag, gwelsom beth tystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Amgylchedd croesawgar
- Gwybodaeth i gleifion ac ymgysylltu â chleifion
- Dulliau da o gadw cofnodion
- Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar y gwasanaeth ar y cyfan.
- Roedd yr amgylchedd mewnol o safon dda ac yn darparu ardaloedd eistedd ac ystafelloedd ymgynghori cyfforddus.
- Dywedodd y cleifion fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch
- Roedd y cofnodion o'r ymgynghoriadau â'r cleifion o safon dda.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod meddygon teulu locwm sy'n gweithio yn y practis yn ymwybodol o ganlyniadau atgyfeiriadau
- Dylai'r bwrdd iechyd ystyried gwella diogelwch yr adeilad drwy roi clo addas ar y drws sy'n arwain at yr ardal staff ar y llawr cyntaf

- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod unrhyw deils llawr sydd ar goll, ac unrhyw rwygiadau i gadeiriau yn unrhyw un o'r ardaloedd clinigol yn cael eu hatgyweirio, neu fod rhai newydd yn cael eu rhoi yn eu lle er myn hwyluso glanhau effeithiol.
- Dylai'r bwrdd iechyd ystyried cael llenni tafladwy yn lle'r llenni cotwm
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y practis yn cynnal archwiliad atal a rheoli heintiau a bod cynllun gweithredu yn cael ei roi ar waith
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod adolygiadau o achosion ac archwiliadau rhagnodi yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod yr holl staff clinigol yn cael gwybod am y canlyniadau
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y pecyn i feddygon teulu locwm yn cynnwys manylion gweithdrefnau diogelu lleol y practis, ac yn cyfeirio at Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff unrhyw wersi a ddysgwyd o gyfarfodydd ynglŷn â digwyddiadau pwysig eu crynhoi a'u trafod â thîm y practis
- Dylai'r bwrdd iechyd adolygu a gwella'r cymorth clinigol yn y practis
- Dylai'r bwrdd iechyd rannu unrhyw wersi a ddysgwyd a chamau gweithredu sy'n deillio o gyfarfodydd y clwstwr â holl staff y practis
- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod gan bob aelod o staff ddisgrifiad swydd sy'n adlewyrchu eu dyletswyddau gwaith presennol
- Mae'n rhaid sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n berthnasol i'w rôl.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Ar hyn o bryd, mae Meddygfa Gyffin yn darparu gwasanaethau i tua 4000 o gleifion yn ardal Conwy. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau meddygon teulu a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r bwrdd iechyd wedi rheoli'r practis ers mis Gorffennaf 2018.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys rheolwr y practis, chwe aelod o staff gweinyddol, un uwch-ymarferydd nyrsio, un nyrs practis, un cynorthwydd gofal iechyd a meddygon teulu locwm.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys:

- Clinig Cynenedigol
- Clinig Asthma
- Clinig Plant/Babanod
- Iechyd Meddwl Cymunedol
- Clinig Diabetes
- Brechiadau Teithio.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod y practis hwn yn gweithio'n galed i roi profiad o ansawdd uchel i'w gleifion. Gwelsom fod gwybodaeth berthnasol yn cael ei harddangos yn y dderbynfa a'r ardal aros, a hynny yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom drwy holiaduron AGIC fod profiad y cleifion yn y practis hwn yn rhagorol neu'n dda iawn.

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir. Ar ddiwrnod yr arolygiad, siaradodd ein harolygwyr â chleifion hefyd er mwyn cael gwybod am eu profiadau yn y practis.

Derbyniwyd cyfanswm o 36 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif llethol o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn gleifion hirdymor yn y practis (wedi bod yn gleifion ers mwy na dwy flynedd).

Yn yr holiadur gofynnwyd i'r cleifion sgorio'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis meddygon teulu hwn. Cafwyd ymatebion cadarnhaol; dywedodd y mwyafrif o'r cleifion fod y gwasanaeth naill ai'n 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

“Mae'r gofal a roddir yn y feddygfa hon bob amser wedi bod yn wych. Ond mae cyfyngiadau'r apwyntiad 5 munud; yr anawsterau wrth gynnal cysondeb o ran gweld yr un meddyg, a'r pryder ynghylch y gallu i gael apwyntiad oll yn golygu bod yr hyn a arferai fod yn wasanaeth cadarn a oedd yn rhoi tawelwch meddwl, dan fygythiad”

“Mae'n bleser dod i'r feddygfa am fod y staff meddygol a'r staff cymorth yn fedrus ac yn barod eu cymorth”

“Mae'r staff bob amser yn gyfeillgar ac yn effeithlon”

“Staff hyfryd a chyfeillgar, mae'r derbynnnydd yn gymwynasgar iawn!”

“Hoffwn bwysleisio pa mor dda y mae'r staff yn y feddygfa. Maent yn dîm o bobl hollol wych – bob amser yn barod eu cymorth ac yn gallu helpu i ddatrys unrhyw anawsterau er mwyn helpu gydag unrhyw broblemau gofal iechyd”

Yn yr holiaduron, gofynnwyd i'r cleifion sut y gallai'r practis wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Dywedodd y cleifion wrthym nad oeddent yn hapus â'r system apwyntiadau bresennol ac nad oedd unrhyw feddygon teulu rheolaidd ar gael yn y feddygfa. Ymysg y gwelliannau a awgrymwyd gan y cleifion roedd y canlynol:

“Gallu ffonio i gael presgripsiwn amlroddadwy. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i fi fynd i'r feddygfa neu'r fferyllfa i archebu meddyginiaeth a dychwelyd wythnos yn ddiweddarach. Gallai fod yn symlach.”

“Mwy o apwyntiadau ymlaen llaw”

“Ei gwneud yn haws i drefnu apwyntiad. Nid yw wedi bod yn bosibl gweld yr un meddyg”

“Meddygon Rheolaidd”

“Byddai'n braf cael meddygon teulu parhaol”

“Meddygon Rheolaidd, does dim modd dweud pwy yw eich meddyg”

Cadw'n iach

Gwelsom fod cleifion yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am reoli eu hiechyd eu hunain gan fod y staff yn rhoi cyngor iddynt ar sut i hybu eu hiechyd a bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael yn yr ardal aros a'r ystafelloedd ymgynghori. Roedd hefyd sgrin deledu yn yr ardal aros a oedd yn arddangos gwybodaeth hybu iechyd a gwybodaeth am y practis. Nodwyd gennym fod y wybodaeth ar y sgrin deledu yn cael ei harddangos yn Saesneg yn unig.

Gwelsom fod y practis yn gweithredu system brysbennu¹ i gyfeirio cleifion at weithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill sydd mewn gwell sefyllfa i'w helpu er mwyn lliniaru'r pwysau ar y staff clinigol yn y practis.

Roedd pobl â chyfrifoldebau gofalu wedi cael eu nodi a rhoddwyd cyngor a gwybodaeth iddynt am sefydliadau a gwasanaethau eraill a allai fod o gymorth iddynt. Roedd un aelod o'r staff yn cyflawni rôl Hyrwyddwr Gofalwyr a byddai'n rhoi llais i'r gofalwyr yn y practis ac yn bwynt cyswllt allweddol ar gyfer gwybodaeth i ofalwyr.

Roedd arwydd 'Dim Smygu' i'w weld a oedd yn cadarnhau bod pwyslais yn cael ei roi ar gydymffurfio â deddfwriaeth mangreoedd di-fwg².

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r wybodaeth ar y sgrin deledu yn yr ystafell aros gael ei harddangos yn ddwyieithog.

Gofal ag urddas

Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin gydag urddas a pharch gan staff y practis.

Dywedodd hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym mai dim ond weithiau y gallent weld eu dewis feddyg.

Gwelsom y staff yn cyfarch pobl mewn ffordd broffesiynol ond cyfeillgar iawn wrth ddesg y dderbynfa ac yn ystod sgysiau ffôn.

Gwnaethom ystyried yr amgylchedd ffisegol a gwelsom fod cyfrinachedd a phreifatrwydd y cleifion wedi cael eu hystyried. Roedd gan y practis drefniadau i

¹ Mae'r broses brysbennu yn ymwneud â rhoi blaenoriaeth i driniaethau cleifion yn seiliedig ar ddifrifoldeb eu cyflwr.

² Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 – Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

ddiogelu preifatrwydd cleifion, gan gynnwys ardaloedd lle gallai cleifion gael sgysiau preifat â'r staff. Roedd galwadau ffôn hefyd yn cael eu hateb yn breifat, allan o glyw'r cleifion.

Roedd y drysau i ystafelloedd ymgynghori a thriniaeth unigol yn cael eu cadw ar gau pan roedd y staff yn gweld cleifion. Roedd llenni ar gael hefyd o amgylch gwelyau archwilio. Roedd hyn yn golygu bod y staff yn cymryd camau priodol i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod apwyntiadau.

Roedd yr hawl i ofyn am hebryngwr wedi'i hysbysebu yn yr ardal aros ac yn yr ystafelloedd ymgynghori. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw beth wedi'i arddangos i gleifion yn yr ystafell driniaeth. Dywedwyd wrthym hefyd y caiff hebryngwyr eu cynnig i gleifion ar lafar yn yr ystafelloedd ymgynghori/triniaeth. Rydym yn argymhell bod y practis yn sicrhau bod poster yn hysbysebu hebryngwyr wedi'i arddangos ym mhob ystafell ymgynghori/driniaeth. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff gweinyddol yn y practis yn gweithredu fel hebryngwr a bod pob un ohonynt wedi cael y canllawiau perthnasol. Fodd bynnag, dywedodd rheolwr y practis wrthym nad oedd unrhyw aelod o'r staff gweinyddol wedi cael hyfforddiant ffurfiol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob hyrwyddwr yn cael hyfforddiant ffurfiol.

Gwybodaeth i gleifion

Fel y soniwyd eisoes, roedd taflenni gwybodaeth iechyd ar gael i gleifion yn yr ardal aros a'r ystafelloedd ymgynghori. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am grwpiau cymorth lleol, cyngor ar hybu iechyd a rheoli hunanofal ar gyfer cyflyrau sy'n ymwneud ag iechyd. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod tâp wedi'i ddefnyddio i roi nifer o hysbysiadau papur ar gefn drysau toiledau'r cleifion. Argymhellwn fod y practis yn tynnu'r holl hysbysiadau oddi ar gefn drysau'r toiledau er mwyn helpu i gefnogi hylendid a phrosesau glanhau llwyddiannus.

Nodwyd gennym fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer hysbysu'r cleifion am unrhyw oedi mewn perthynas ag amseroedd eu hapwyntiadau.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y byddent yn gwybod sut i gysylltu â'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau. Roedd gwybodaeth am amseroedd agor y practis ar gael ar wefan y practis ac yn y daflen i gleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod yr holl hysbysiadau yn cael eu tynnu oddi ar gefn drysau'r toiledau er mwyn helpu i gefnogi hylendid a phrosesau glanhau llwyddiannus.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Dywedwyd wrthym fod sawl aelod o'r staff yn gallu cyfathrebu'n ddwyieithog â chleifion. Mae trefniadau hefyd ar waith i gael gafael ar wasanaethau cyfieithu yn ôl y gofyn. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y gwasanaeth hwn yn cael ei hyrwyddo. Argymhellwn fod y practis yn arddangos poster Iaith Gwaith ger desg y dderbynfa ac yn yr ardal aros. Mae brand Iaith Gwaith yn ffordd hawdd o hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg drwy nodi siaradwyr Cymraeg.

Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallant ei deall, a dywedodd y cleifion hyn wrthym hefyd eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag y dymunant mewn penderfyniadau a wneir am eu gofal.

Darparwyd dolen clyw er mwyn helpu'r cleifion hynny sydd â nam ar eu clyw i gyfathrebu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau y caiff poster Iaith Gwaith ei arddangos ger y dderbynfa a'r ardal aros.

Gofal amserol

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn fodlon iawn neu'n gymharol fodlon ar oriau agor y practis. Dywedodd ychydig yn llai na hanner o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn ei chael hi'n hawdd iawn neu'n eithaf hawdd cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio eu profiad cyffredinol o drefnu apwyntiad, disgrifiodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu profiad fel un da neu dda iawn.

Roedd cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau nad oeddent yn rhai brys ymlaen llaw rhwng dydd Llun a dydd Gwener, dros y ffôn. Gwelsom hefyd fod y practis yn cynnal rhywfaint o apwyntiadau ar yr un diwrnod ac apwyntiadau brys. Roedd y practis hefyd yn defnyddio cyfleuster Fy Iechyd Ar-lein³ i wneud cais am bresgripsiynau amlroddadwy. Dylid annog y cleifion i ddefnyddio'r cyfleuster hwn oherwydd gallai leihau'r pwysau ar y llinellau ffôn.

Yn ogystal â gweld cleifion â mân salwch, roedd y tîm nyrsio hefyd yn rhedeg nifer o glinigau ar gyfer cleifion â chyflyrau iechyd cronig megis clefyd coronaidd y galon, gwiriad diabetes, adolygiad asthma a phroffion ceg y groth.

Gwelsom fod y practis yn gwneud atgyfeiriadau at arbenigwyr eraill mewn modd amserol. Fodd bynnag, dywedodd un o'r meddygon teulu locwm wrthym fod canlyniadau atgyfeiriadau yn cael eu hystyried mewn cyfarfod Grŵp Cyfeirio Clinigol nad yw meddygon teulu locwm yn cael eu gwahodd iddo.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod meddygon teulu locwm sy'n gweithio yn y practis yn ymwybodol o ganlyniadau atgyfeiriadau.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd tîm y practis yn adnabod y cleifion yn dda iawn ac yn gwneud addasiadau yn unol ag anghenion unigol pobl ar sail y wybodaeth hon.

Roedd pob un ond pedwar o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod hi'n hawdd iawn neu'n eithaf hawdd mynd i mewn i adeilad y practis.

Roedd y practis mewn capel a oedd wedi cael ei addasu ac roedd maes parcio ar y safle. Serch hyn, gwelsom y gellid gwella'r mynediad at yr adeilad i bobl anabl a'r cyfleusterau parcio. Argymhellwn fod y bwrdd iechyd yn rhoi ystyriaeth

³ <https://www.myhealthonline-inps2.wales.nhs.uk/web/ps/welcome>

bellach i'r mynediad at yr adeilad fel rhan o unrhyw gynlluniau i ailwampio'r practis yn y dyfodol.

Gwelsom fod y maes parcio ar lethr serth sy'n ei gwneud yn anodd iawn i gleifion ddefnyddio'r maes parcio. Gwelsom nad oedd fawr ddim goleuadau ar y ramp o'r maes parcio; ac roedd y ramp yn rhy serth i gleifion ag anawsterau symudedd neu ddefnyddwyr cadeiriau olwyn ei ddefnyddio'n hawdd.

Yn ystod ein harolygiad, cawsom sgwrs ag un claf a oedd yn dibynnu ar gymorth cerdded. Dywedodd wrthym ei fod wedi cael anawsterau wrth barcio y tu allan gan fod angen iddo agor y drws led y pen er mwyn dod allan o'r car. Llwyddodd i ymdopi â'r mynediad serth o'r maes parcio ond cafodd anawsterau penodol â drysau'r practis, nad ydynt yn agor yn awtomatig. Dywedodd y byddai'n amhosibl pe bai angen iddo fynd i'r practis mewn cadair olwyn, oherwydd bod y ramp mor serth.

Roedd toiledau a oedd yn addas i bobl anabl yn yr ardal aros i'r cleifion eu defnyddio, ynghyd â chyfleusterau newid cewynnau babanod.

Roedd pob un o ystafelloedd ymgynghori'r meddygon teulu, yr ystafelloedd clinigol a'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr gwaelod. Roedd yr ystafelloedd ymgynghori, yr ystafelloedd clinigol a'r ystafelloedd triniaeth yn fawr ac yn cynnwys adnoddau da iawn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y ramp o'r maes parcio i'r brif fynedfa wedi'i oleuo'n ddigonol.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried pa mor serth yw'r maes parcio a'r ramp i gleifion â symudedd cyfyngedig a defnyddwyr cadeiriau olwyn mewn unrhyw gynlluniau ailwampio yn y dyfodol.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried gosod drysau awtomatig wrth y fynedfa mewn unrhyw gynlluniau i ailwampio yn y dyfodol.

Hawliau pobl

Roedd y practis wedi gwneud trefniadau i sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i gleifion ag anghenion a gofynion iaith amrywiol, fel y disgrifir uchod.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth. Roedd protocol cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant cysylltiedig.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Nodwyd gennym nad oedd gan y practis grŵp cyfranogiad cleifion. Mae grwpiau cyfranogiad cleifion yn rhoi gwybodaeth werthfawr i bractisau am y gwasanaethau a ddarperir ac yn cyfleu profiadau cleifion uniongyrchol. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried y maes hwn o werthuso'r gwasanaeth fel ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth.

Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod blwch awgrymiadau ar gael i gleifion roi adborth neu awgrymiadau. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gardiau sylwadau na beiros ar gael er mwyn i'r cleifion eu defnyddio. Dywedwyd wrthym fod unrhyw sylwadau neu adborth yn cael eu hadolygu, a bod rheolwr y practis yn gweithredu arnynt os oedd hynny'n briodol. Ni welsom unrhyw wybodaeth am sut i godi pryder / gwneud cwyn, gan gyfeirio at broses 'Gweithio i Wella'⁴ GIG Cymru. Gwnaethom argymhell bod angen arddangos y broses gwynion at ddibenion cleifion y GIG mewn manau amlwg yn y practis.

Roedd gweithdrefn gwyno ffurfiol ar waith yn ogystal â thaflen benodol am gwynion. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y daflen gwynion ar gael yn yr ystafell aros. Gwelsom hefyd nad oedd y daflen gwynion yn cynnwys yr amserlenni cywir ar gyfer ymateb i gwynion yn unol â phroses 'Gweithio i Wella' y GIG.

Gwelsom fod pwyslais yn cael ei roi ar ddelio â chwynion yn llygad y ffynnon er mwyn datrys materion mor gyflym â phosibl ac osgoi'r angen i'w huwchgyfeirio. Tynnwyd sylw rheolwr y practis a'r bwrdd iechyd at bob cwyn.

⁴ Mae Gweithio i Wella yn broses o ymdrin â Chwynion, Honiadau a Digwyddiadau a elwir gyda'i gilydd yn "Bryderon". Mae hwn yn newid diwylliannol sylweddol i'r GIG yng Nghymru o ran y ffordd y mae'n ymdrin â phethau sy'n mynd o chwith, gan gyflwyno un dull cyson o raddio pryderon ac ymchwilio iddynt, yn ogystal â bod yn fwy agored a chynnwys y person sy'n codi'r pryder.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod cardiau sylwadau a beiros ar gael er mwyn i gleifion roi adborth.

Sicrhau bod gwybodaeth gyffredinol ar gael yn hawdd i bob claf am broses GIG Cymru ar gyfer codi pryder/gwneud cwyn, sef 'Gweithio i Wella'.

Sicrhau bod taflen gwynion y practis yn cynnwys yr amserlenni cywir yn unol â 'Gweithio i Wella' GIG Cymru a'i bod yn cael ei harddangos yn amlwg ac ar gael i gleifion fynd adref gyda nhw.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w gleifion.

Roedd gwybodaeth ar gael i gleifion i'w helpu i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Roedd y sampl o gofnodion cleifion a archwiliwyd gennym o safon dda.

Roedd polisi diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed ar waith ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant cysylltiedig.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Wrth fynd o amgylch adeilad y practis, gwelsom fod yr holl ardaloedd a oedd yn agored i gleifion yn lân ac yn glir rhag rhwystrau, a oedd yn lleihau'r risg o fraglu a chwympo.

Nodwyd gennym y gellid gwella mesurau diogelwch yr adeilad drwy osod clo addas ar y drws sy'n arwain i lobi grisiau'r ardal i staff yn unig ar y llawr cyntaf o goridor y llawr gwaelod. Gwelsom fod clo bysellbad ar y drws yn arwain i ardal y staff ar y llawr cyntaf. Fodd bynnag, roedd y drws hwn wedi'i ddal ar agor yn ystod ein hymwelad. Cytunodd y bwrdd iechyd y byddai'n fwy addas i'r clo bysellbad fod ar lefel y llawr gwaelod.

Nid oedd unrhyw asesiadau iechyd a diogelwch na risg tân ar gael i ni eu gweld yn ystod ein harolygiad. Fodd bynnag, cawsom ein sicrhau ar lafar gan y bwrdd iechyd fod y rhain ar waith ac yn cael eu cadw'n ganolog yn adran ystadau'r bwrdd iechyd. Yn dilyn ein harolygiad, cafodd yr asesiadau iechyd a diogelwch a risg tân eu hanfon at AGIC, ynghyd ag adroddiad manwl a chynllun gweithredu. Argymhellwn fod y bwrdd iechyd yn ystyried pob un o'r camau gweithredu a nodir gan sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith o fewn yr amserlen a argymhellir.

Roedd cyfarpar diogelwch tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi'i wasanaethu yn rheolaidd.

Roedd allanfeydd argyfwng yn weladwy, ac roedd poster iechyd a diogelwch yn cael ei arddangos yn y practis. Roedd ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi.

Cawsom sicrwydd ar lafar fod yr holl ddyfeisiau cludadwy yn y practis yr oedd angen eu profi, wedi cael eu profi. Fodd bynnag, nodwyd gennym ei bod yn bryd i rai o'r dyfeisiau cludadwy trydanol gael eu profi eto yn ôl y sticeri ar rai o'r dyfeisiau. Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r adroddiad ar y dyfeisiau cludadwy trydanol gan sicrhau bod yr holl ddyfeisiau'n cael eu profi yn unol â'r amserlen a argymhellir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried gwella diogelwch yr adeilad drwy roi clo addas ar y drws sy'n arwain at yr ardal staff ar y llawr cyntaf.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gamau gweithredu a nodir yn yr asesiad risg tân yn cael eu hystyried a'u rhoi ar waith.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r adroddiad ar y dyfeisiau cludadwy trydanol er mwyn sicrhau bod yr holl ddyfeisiau'n cael eu profi yn unol â'r amserlen a argymhellir.

Atal a rheoli heintiau

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis; roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis yn lân.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff, megis menig a ffedogau plastig tafladwy, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Fodd bynnag, gwelsom fod y cyfleuster darparu ffedogau yn yr ystafell driniaeth yn wag, a gwelsom fenig a oedd wedi darfod wedi'u storio yn y cwpwrdd hefyd. Gwelsom hefyd fod rhwyg yn un o'r cadeiriau a bod rhai o'r teils llawr o dan y ddesg yn yr ystafell driniaeth ar goll. Dylid atgyweirio'r rhain er mwyn hwyluso glanhau effeithiol.

Gwelsom fod y llenni yn yr ystafelloedd triniaeth yn rhai cotwm. Argymhellwn yn gryf fod y practis yn ystyried cael llenni tafladwy yn lle'r llenni cotwm. Bydd hyn yn sicrhau y byddai modd cael rhai newydd yn eu lle'n hawdd pe byddent yn cael eu halogi neu eu baeddu a byddai'n dangos ymrwymiad da i reoli ac atal heintiau.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn yr ardaloedd clinigol a'r toiledau. Roedd cynwysyddion glanweithydd dwylo ar gael o gwmpas y practis hefyd. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod toiledau'r cleifion yn cynnwys biniau â phedal troed wedi'i dorri neu finiau agored. Gwelsom hefyd nad oedd bin

gwastraff priodol ar gyfer cewynnau budr yn yr ystafell newid cewynnau babanod. Argymhellwn yn gryf fod y bwrdd iechyd yn sicrhau y rhoddir biniau a weithredir â throed yn lle'r holl finiau agored a bod bin gwastraff priodol yn cael ei ddarparu yn y cyfleuster newid cewynnau babanod.

Gwelsom fod y practis yn defnyddio protocol rheoli heintiau'r bwrdd iechyd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw bolisi rheoli heintiau lleol yn y practis. Argymhellwn fod y bwrdd iechyd yn sicrhau bod polisi rheoli heintiau lleol yn cael ei lunio a'i roi ar waith yn y practis.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod y practis wedi cynnal unrhyw archwiliadau atal a rheoli heintiau; ac nid oedd cynllun gweithredu ar waith ers i'r practis gael ei drosglwyddo i'r bwrdd iechyd.

Nodwyd gennym hefyd fod llawer o deganau a llyfrau i blant yn ystafell aros y practis. Gwelsom nad oedd modd glanhau pob un o'r teganau'n hawdd. At ddibenion atal a rheoli heintiau, argymhellwn fod y bwrdd iechyd yn adolygu'r teganau sydd ar gael fel rhan o'i archwiliad atal a rheoli heintiau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod unrhyw gyfleusterau darparu ffedogau yn y practis yn cael eu hailgyflenwi'n rheolaidd a bod yr holl gyfarpar diogelu personol a gaiff ei storio mewn ardaloedd clinigol o fewn ei ddyddiad defnyddio.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod prosesau digonol ar waith yn y practis i fonitro'r cyfarpar diogelu personol, fel menig tafladwy, er mwyn sicrhau eu bod o fewn eu dyddiad.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod unrhyw rwygiadau i gadeiriau yn unrhyw un o'r ardaloedd clinigol yn cael eu hatgyweirio, neu fod rhai newydd yn cael eu rhoi yn eu lle, er mwyn hwyluso glanhau effeithiol.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod teils llawr newydd yn cael eu gosod o dan y ddesg yn yr ystafell driniaeth er mwyn hwyluso glanhau effeithiol.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried cael llenni tafladwy yn lle unrhyw lenni cotwm.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y rhoddir biniau a weithredir â throed yn lle'r holl finiau agored a bod bin gwastraff priodol yn cael ei ddarparu yn y cyfleuster newid cewynnau babanod.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod polisi rheoli heintiau lleol yn cael ei lunio a'i roi ar waith yn y practis.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y practis yn cynnal archwiliad atal a rheoli heintiau a bod cynllun gweithredu yn cael ei roi ar waith.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r teganau sydd ar gael i blant fel rhan o'i archwiliad atal a rheoli heintiau.

Rheoli meddyginiaethau

Gellid gofyn am bresgripsiynau amlroddadwy yn bersonol yn y practis neu drwy'r post, neu drwy gwblhau'r rhestr rwygo ar gyfrifiadur, neu drwy ddefnyddio cyfleuster Fy Iechyd Ar-lein. Nodwyd bod y practis yn gwneud ymdrech i ddychwelyd presgripsiynau i gleifion o fewn 48 awr. Nid oedd y practis yn derbyn presgripsiynau amlroddadwy dros y ffôn am resymau yn ymwneud â diogelwch.

Fodd bynnag, ni roddwyd sicrwydd llawn i ni fod y practis yn adolygu achosion nac yn cynnal archwiliadau rhagnodi yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod unrhyw feddyginiaeth ddiangen, neu feddyginiaeth nad oedd y cleifion yn ei chymryd

bellach, yn cael ei thynnu o'r rhestr presgripsiynau amlroddadwy. Dywedwyd wrthym fod adolygiadau achos yn cael eu cynnal pan oedd meddygon teulu rheolaidd yn y practis. Fodd bynnag, gan fod y practis bellach yn ddibynnol ar feddygon teulu locwm, nid oes unrhyw adolygiadau achos wedi cael eu cynnal ers i'r practis ddechrau cael ei reoli gan y bwrdd iechyd. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod adolygiadau o achosion ac archwiliadau rhagnodi yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cleifion yn derbyn y feddyginiaeth gywir. Rydym hefyd yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd benodi arweinydd rhagnodi a fydd yn rhoi adborth i'r aelodau perthnasol o'r tîm ar ragnodi clinigol er mwyn sicrhau bod yr holl aelodau o'r staff clinigol yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ac i nodi a oes angen bodloni unrhyw ofynion o ran hyfforddiant.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod adolygiadau o achosion ac archwiliadau rhagnodi yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod yr holl staff clinigol yn cael gwybod am y canlyniadau.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau diogelu plant ac oedolion y bwrdd iechyd ar gael i'r practis, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt cyfredol unigolion dynodedig yn y bwrdd iechyd os oedd gan y staff unrhyw bryderon am ddiogelu. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen i'r practis gynnwys gweithdrefnau diogelu lleol a 'Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan' ym mhecyn sefydlu'r practis ar gyfer meddygon teulu locwm.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu perthnasol. Roedd y staff yn gwybod sut i nodi arwyddion o gam-drin ymhlith oedolion a phlant sy'n agored i niwed. Roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran rhannu gwybodaeth, dogfennu pryderon yn ymwneud â diogelu a sut i gysylltu ag asiantaethau perthnasol.

Disgrifiodd y bwrdd iechyd y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal mewn perthynas ag unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd

hyn yn cynnwys gwirio geirdaon a/neu gynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd⁵ ar staff sy'n briodol i'r gwaith a wneir ganddynt.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y pecyn i feddygon teulu locwm yn cynnwys manylion gweithdrefnau diogelu lleol y practis, ac yn cyfeirio at Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom fod peth cyfarpar, a nodir isod, wedi mynd heibio ei ddyddiad defnyddio yn ystafell ymgynghori 5:

- Stripiau profion dadansoddi wrin
- Pecynnau mân lawdriniaethau
- Swabiau nad oeddent yn rhai gweuedig

Hefyd, gwelsom rywfaint o gyfarpar yn ystafell ymgynghori 5 nad oedd wedi cael ei galibradu⁶ yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr.

- Dwy oergell feddyginiaeth
- Teclyn mesur pwysedd gwaed

Ymdriniwyd â'n pryderon ynglŷn â'r cyfarpar a oedd wedi mynd heibio'i ddyddiad defnyddio a'r cyfarpar nad oedd wedi'i galibradu o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y practis yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Rhoddir manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

⁵ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

⁶ Nod calibradu yw lleihau unrhyw ansicrwydd wrth fesur drwy sicrhau cywirdeb y cyfarpar profi. Mae calibradu'n meintiol ac yn rheoli camgymeriadau neu ansicrwydd mewn prosesau mesur i lefel dderbyniol

Gwelwyd bod cyffuriau ac offer argyfwng a oedd yn cael eu cadw yn y practis yn cael eu storio'n briodol fel ei bod yn hawdd cael gafael arnynt mewn argyfwng. Fodd bynnag, gwelsom fod y naloxone⁷ wedi darfod. Nodwyd gennym hefyd nad oedd y rhestr wirio cyffuriau a chyfarpar brys wedi cael ei chwblhau'n llawn. Argymhellwn fod y bwrdd iechyd yn sicrhau bod system yn cael ei rhoi ar waith ar gyfer archwilio'r cyffuriau a'r cyfarpar brys yn rheolaidd a chwblhau'r rhestr wirio. Rydym yn argymhell hefyd fod y practis yn cofnodi dyddiadau darfod yr holl gyffuriau a chyfarpar er mwyn sicrhau eu bod yn aros o fewn eu dyddiad defnyddio.

Wrth adolygu'r pecyn cyffuriau brys, gwelsom nad oedd yr eitemau canlynol ar gael:

- Benzylpenicillin⁸
- Cefotaxime⁹
- Chlorphenamine¹⁰

Trefnodd y bwrdd iechyd i'r eitemau hyn ac unrhyw gyffuriau a oedd wedi darfod gael eu tynnu o'r pecyn cyffuriau brys yn ystod ein hymweliad, a chael rhai newydd yn eu lle.

Gwelsom hefyd nad oedd y canllawiau dadebru i'w gweld yn glir. At hyn, nid oedd y dosau cyffuriau a argymhellir ar gyfer adrenalin a meningitis i'w gweld yn glir. Daethom hyd i'r daflen dosau adrenalin mewn bocs coch a oedd wedi'i storio ar y llawr.

⁷Cyffur synthetig yw naloxone, tebyg i forffin, sy'n atal derbynyddion opiadau yn y system nerfol.

⁸ Gwrthfotig yw benzylpenicillin, a elwir hefyd yn benisilin G, a ddefnyddir i drin nifer o heintiau bacterol.

⁹Gwrthfotig yw cefotaxime a ddefnyddir i drin nifer o heintiau bacterol

¹⁰ Gwrth-histamin yw chlorphenamine, a elwir hefyd yn chlorpheniramine, a ddefnyddir i drin symptomau cyflyrau alergaidd

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y practis yn cyfeirio at ganllawiau cyngor dadebru'r DU ar gyfer gofal sylfaenol wrth ystyried pa gyffuriau brys y dylid sicrhau eu bod ar gael.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod system gadarn yn cael ei rhoi ar waith ar gyfer monitro cyfarpar a chyffuriau brys er mwyn sicrhau y gwaredir unrhyw eitemau sydd wedi'u defnyddio neu wedi'u darfod, ac y ceir rhai newydd yn eu lle.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y canllawiau dadebru ar gael i'r staff eu gweld yn glir a sicrhau bod unrhyw daflenni dosau cyffuriau a argymhellir wrth law mewn argyfwng.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd trefniadau addas ar waith yn y practis i roi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau arwyddocaol.

Roedd y practis yn defnyddio'r system Datix¹¹ ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau. Roedd digwyddiadau arwyddocaol yn cael eu cofnodi a'u trafod mewn cyfarfodydd grŵp cyfeirio clinigol a gynhaliwyd gan y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, rydym yn argymhell eu bod yn crynhoi unrhyw wersi a ddysgwyd o'r cyfarfodydd hyn yn rheolaidd a bod y tîm clinigol yn eu trafod â'r practis. Bydd hyn yn sicrhau y caiff unrhyw wersi a ddysgwyd a / neu newidiadau eu rhoi ar waith yn y practis.

¹¹ Meddalwedd ar y we ar gyfer rheoli risg a rhoi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a ddefnyddir gan sefydliadau gofal iechyd a gofal cymdeithasol yw Datix.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff unrhyw wersi a ddysgwyd o gyfarfodydd ynglŷn â digwyddiadau pwysig eu crynhoi a'u trafod â thîm y practis.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau llywodraethu gwybodaeth ar waith. Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod sut i gael gafael ar y wybodaeth hon.

Cadw cofnodion

Adolygwyd sampl o gofnodion cleifion. Gwelsom dystiolaeth fod y meddygon teulu locwm yn y practis yn cadw cofnodion clinigol o ansawdd da. Ym mhob achos, roedd y nodiadau'n cynnwys digon o fanylion am ymgynghoriadau rhwng y staff clinigol a'r cleifion ac roedd modd gweld canlyniad ymgynghoriadau a chynllun gofal.

Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y meddygon teulu'n defnyddio set o godau READ¹² y cytunwyd arni i gofnodi cyflyrau cyffredin. Gwelsom fod y codau READ yn unol â dewis personol y meddyg teulu. Argymhellwn fod y bwrdd iechyd yn sicrhau y rhoddir set safonol o godau READ ar waith a'i bod yn cael ei defnyddio gan y tîm clinigol.

Nodwyd gennym hefyd fod ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn nifer o leoliadau yn ardal staff yn unig y practis. Roedd y mwyafrif o ffeiliau'r cleifion wedi'u lleoli yng nghegin y staff, gyda rhai o'r ffeiliau'n cael eu cadw yn yr ystafell storio gyffredinol ac ystafell y gweinydd. Dywedwyd wrthym fod cofnodion y

¹² Codau READ yw'r system terminoleg glinigol safonol a ddefnyddir gan feddygon teulu yn y Deyrnas Unedig. Mae'n golygu y gellir amgodio ffenomena cleifion lluosog mewn ffordd glinigol a manwl, gan gynnwys: galwedigaeth; amgylchiadau cymdeithasol; ethnigrwydd a chrefydd; arwyddion, symptomau ac arsylwadau clinigol; profion labordy a chanlyniadau; diagnosisu; triniaethau diagnostig, therapiwtig neu lawfeddygol a gyflawnwyd; ac amrywiaeth o eitemau gweinyddol.

cleifion yn mynd i gael eu sganio'n electronig maes o law. Fodd bynnag, yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod drws gegin y staff wedi cael ei ddal ar agor. Gwelsom hefyd nad oedd drws yr ystafell storio gyffredinol na drws ystafell y gweinydd wedi cael eu cloi. Gwnaethom drafod ein pryderon am ddiogelwch cofnodion y cleifion â'r bwrdd iechyd. Cawsom ein sicrhau ar lafar fod yr ardaloedd hyn yn cael eu cloi'n ddiogel y tu allan i oriau swyddfa a dim ond y staff sydd â mynediad i'r llawr cyntaf. Roedd y drws ar y llawr cyntaf wedi cael ei adael ar agor at ddibenion yr arolygiad. Fel y soniwyd yn flaenorol yn yr adroddiad, cytunodd y bwrdd iechyd y byddai'n fwy addas i'r clo bysellbad fod ar lefel y llawr gwaelod, a fydd yn gwella diogelwch ffeiliau'r cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod set o godau READ y cytunir arni yn cael ei rhoi ar waith yn y practis.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf a oedd yn gymwys i gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl. Gwelsom y staff yn cefnogi ei gilydd ac yn cydweithio'n dda fel tîm.

Ar y cyfan, roedd y practis yn cael ei reoli'n dda gan reolwr practis ymrwymedig ac ymroddedig. Roedd gan reolwr y practis ethos rheoli o fod yn agored a hawdd mynd ato, a oedd yn golygu bod y staff yn gallu bod yn hyderus wrth godi materion. Rheolwr y practis a oedd yn gyfrifol am yr holl faterion rheoli anghlinigol. Fodd bynnag, oherwydd anawstrau wrth recriwtio meddygon teulu parhaol a'r diffyg arweiniad clinigol yn y practis, teimlai rhai o'r staff nad oedd cymorth clinigol ar gael iddynt. Argymhellwn fod y bwrdd iechyd yn monitro'r maes hwn yn agos ac yn rhoi mwy o arweiniad clinigol parhaus i gynorthwyo'r staff.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd rheolwr y practis yn hynod ymrwymedig ac ymroddedig i'w rôl yn y practis. Gwelsom fod y staff yn ymddwyn yn barchus ac yn gwrtais â'i gilydd yn y practis. Dywedodd y staff i gyd wrthym eu bod yn teimlo y gallent godi unrhyw faterion â rheolwr y practis ac y byddai'n mynd i'r afael ag unrhyw faterion mewn ffordd gynhwysfawr a thrylwyr.

Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn hynod ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl.

Mae'r practis wedi cael llawer o drafferth yn recriwtio meddygon teulu parhaol ers nifer o flynyddoedd. O ganlyniad i hyn, bu angen defnyddio meddygon teulu

locwm i ddarparu'r lefel ddynodedig o wasanaethau angenrheidiol. Mae'r bwrdd iechyd yn gweithio i geisio recriwtio meddygon teulu parhaol ac mae'r broses hon yn parhau. Oherwydd hyn, nid yw'r parhad gofal i'r cleifion cystal ag y gallai fod. Mae hyn wedi rhoi pwysau sylweddol ar aelodau penodol o'r staff sy'n gweithio yn y practis.

Siaradodd y staff yn gadarnhaol am yr amgylchedd gwaith gan ddweud wrthym eu bod yn teimlo bod eu cydweithwyr yn y practis yn eu parchu ac yn eu cefnogi. Fodd bynnag, dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym eu bod yn teimlo nad oedd cymorth clinigol ar gael iddynt oherwydd diffyg cymorth gan arweinydd clinigol. Fel y sonnir uchod, mae'r practis yn dibynnu ar feddygon teulu locwm a gall y sefyllfa hon fod yn anodd iawn i dîm y practis ei rheoli. Mae rheolwr y practis yn sicrhau rhywfaint o gysondeb drwy drefnu bod un meddyg teulu locwm rheolaidd yn y practis am ddau ddiwrnod yr wythnos. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym y bydd y practis yn parhau i fod ar agor i gleifion heb unrhyw gymorth gan arweinydd clinigol ar y safle. Gwnaethom drafod ein pryderon am ddiffyg cymorth clinigol â'r bwrdd iechyd. Dywedwyd wrthym fod cymorth clinigol yn cael ei gynnig a bod manylion cyswllt / atgyfeirio yn y practis. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r adborth a gawsom gan y staff, rydym yn argymhell bod y bwrdd iechyd yn adolygu ei broses bresennol, gan sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis yn gwbl ymwybodol o'r trefniadau hyn a pha gymorth clinigol sydd ar gael.

Roedd polisi chwythu'r chwiban ar gael a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallant godi pryderon gyda rheolwr y practis.

Roedd gan y staff fynediad at bolisiâu a gweithdrefnau'r bwrdd iechyd i'w llywio yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Mae'r bwrdd iechyd yn cynnal grŵp clwstwr lleol¹³ lle mae'r holl bractisau meddyg teulu lleol a reolir gan y bwrdd iechyd yn dod at ei gilydd i rannu unrhyw wersi a ddysgwyd. Dywedodd y bwrdd iechyd wrthym fod y practis yn ymgysylltu'n dda iawn â'r grŵp clwstwr a'u bod yn cydweithio'n dda â'i gilydd. Rydym yn argymhell

¹³ Ystyr Clwstwr yw grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol. Caiff clystyrau eu pennu gan Fyrddau Iechyd Lleol unigol GIG Cymru.

bod unrhyw wersi a ddysgwyd a chamau gweithredu sy'n codi o gyfarfod y clwstwr yn cael eu rhannu â staff y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis barhau â'i ymdrechion i recriwtio clinigwyr parhaol er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar feddygon teulu locwm a sicrhau parhad gofal i gleifion.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu a gwella'r cymorth clinigol yn y practis.

Dylai'r bwrdd iechyd rannu unrhyw wersi a ddysgwyd a chamau gweithredu sy'n deillio o gyfarfodydd y clwstwr â holl staff y practis.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd tîm sefydlog o staff derbynfa a staff gweinyddol yn y practis. Wrth drafod â'r staff ac adolygu sampl o gofnodion staff, gwelwyd bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth gywir, ar y cyfan, i gyflawni eu rolau penodol o fewn y practis. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd rhai disgrifiadau swydd yn gyfredol mwyach a bod angen eu hadolygu am fod rolau a chyfrifoldebau rhai aelodau o'r staff wedi newid ers i'r practis ddechrau cael ei reoli gan y bwrdd iechyd.

Cadarnhaodd y bwrdd iechyd fod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol a bod hyn yn cael ei fonitro gan y bwrdd iechyd. Cadarnhaodd yr holl aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol a'u bod yn cael arfarniad staff blynyddol gan reolwr y practis.

Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau'r staff. Nid oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei chadw'n lleol yn y practis i ddangos bod aelodau o'r staff wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i'r lefel ofynnol i ddangos eu bod yn addas i weithio yn y practis. Dywedodd y bwrdd iechyd wrthym ei fod yn gyfrifol am gynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Rydym yn argymhell bod y bwrdd iechyd yn sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis yn cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n berthnasol i'w rôl, gan gynnwys staff gweinyddol sydd â mynediad at wybodaeth am y cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod gan bob aelod o staff ddisgrifiad swydd sy'n adlewyrchu eu dyletswyddau gwaith presennol

Mae'n rhaid sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n berthnasol i'w rôl.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau meddygon teulu. Bydd practisau meddygon teulu yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae practisau meddygon teulu yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau meddygon teulu.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau meddygon teulu](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Wrth adolygu'r pecyn cyffuriau brys, gwelsom nad oedd yr eitemau canlynol ar gael.</p> <ul style="list-style-type: none">• Benzylpenicillin• Cefotaxime• Chlorphenamine	<p>Gallai hyn olygu bod claf mewn perygl pe bai argyfwng.</p>	<p>Gwnaethom dynnu sylw'r bwrdd iechyd at hyn yn ystod ein harolygiad.</p>	<p>Trefnodd y bwrdd iechyd i'r eitemau hyn gael eu tynnu o'r pecyn cyffuriau brys yn ystod ein hymweliad, a chael rhai newydd yn eu lle.</p>

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Meddygfa Gyffin

Dyddiad arolygu: 12 Medi 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Canfyddiad: Gwelsom fod peth cyfarpar, a nodir isod, wedi mynd heibio'i ddyddiad defnyddio yn ystafell ymgynghori 5. Mae hyn yn peri risg i ddiogelwch y cleifion, mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau.	Safon lechyd a Gofal 2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Cael cyfarpar newydd yn lle'r rhai sydd wedi mynd heibio'u dyddiadau defnyddio yn ystafell ymgynghori 5.	Rheolwr Practis	y Ar unwaith - 16/9/19 (cwblhawyd)
Stripiau profion dadansoddi wrin	Safon lechyd a Gofal 2.9	Adolygu'r holl gyfarpar a nwyddau traul ym mhob ystafell glinigol	Rheolwr Practis	y 18/9/19 (cwblhawyd)
Pecynnau mân lawdriniaethau	Dyfeisiau meddygol, offer a	Cadarnhau'r rhestr o'r holl gyfarpar/nwyddau traul sydd eu hangen ym mhob ystafell gyda'r Cyfarwyddwr Meddygol Ardal	Pennaeth Gwasanaeth	y 18/09/2019 (cwblhawyd)
Swabiau nad oeddent yn rhai gweuedig	systemau diagnostig			

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Yr hyn sydd angen ei wella:</p> <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod unrhyw gyfarpar a ddefnyddir i drin y cleifion yn dal i fod yn addas i'w ddefnyddio ac nad yw wedi mynd heibio'i ddyddiad defnyddio. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod systemau digonol ar waith i fonitro cyfarpar ym mhob ystafell ymgynghori.</p>		Dylai'r stoc o gyfarpar gael ei harchwilio bob wythnos, gan ddefnyddio rhestr benodol, wedi'i chofnodi a'i llofnodi bob tro.	Cynorthwydd Gofal Iechyd (wedi'i gefnogi gan reolwr y practis)	Dechreuwyd ar 18/09/2019 ac yna yn barhaus bob wythnos.
<p>Canfyddiad:</p> <p>Gwelsom rywfaint o gyfarpar yn ystafell ymgynghori 5 nad oedd wedi cael ei galibradu yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr.</p> <ul style="list-style-type: none"> Dwy oergell feddyginiaeth Teclyn mesur pwysedd gwaed <p>Yr hyn sydd angen ei wella:</p> <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gyfarpar y mae angen eu calibradu bob blwyddyn cael eu calibradu'n brydlon, ac y rhoddir</p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal 2.9 Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig;</p> <p>2.6 Rheoli Meddyginiaethau</p>	<p>Trefnu i'r holl gyfarpar yn y Practis gael ei galibradu lle nad yw hyn wedi cael ei wneud yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr.</p> <p>Cofnod o'r cyfarpar perthnasol a'r dyddiadau adnewyddu i gael ei gadw, gyda'r profion yn cael eu trefnu cyn y dyddiad dod i ben</p>	<p>Swyddog Ystadau Practisau Reolir</p> <p>Rheolwr Practis Swyddog Ystadau Practisau Reolir</p>	<p>30/09/2019 (archebwyd a chadarnhawyd)</p> <p>30/09/19</p>

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
systemau ar waith i sicrhau bod hyn yn cael ei gwblhau'n berthnasol ac yn ddi-oed.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Clare Darlington

Swydd: Y Cyfarwyddwr Meddygol Ardal – Gofal Sylfaenol

Dyddiad: 19 Medi 2019

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Gyffin

Dyddiad arolygu: 12 Medi 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylai'r wybodaeth ar y sgrin deledu yn yr ystafell aros gael ei harddangos yn ddwyieithog.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Gan mai Public Health England sy'n darparu'r rhan fwyaf o wybodaeth ar gyfer y sgriniau, cysylltwyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ofyn am wybodaeth Ddwyieithog ar gyfer y sgriniau. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi darparu rhywfaint o wybodaeth sydd wrthi'n cael ei lanlwytho i'r sgrin wybodaeth ar ôl i hyfforddiant gael ei roi ar y cyfarpar.	Myfyriwr Busnes Gradd	16 Rhagfyr 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob hyrwyddwr yn cael hyfforddiant ffurfiol.	4.1 Gofal ag Urddas	Mae'r hyfforddiant i Hebryngwyr ar-lein ar hyn o bryd, wedi'i sefydlu gan Gyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol a Chymunedol. Bydd pob aelod o'r staff yn cael cynnig yr hyfforddiant.	Pennaeth y Gwasanaeth Rheolwr y Practis	28 Chwefror 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Bydd y rheini sy'n dymuno bod yn Hebryngwr yn cwblhau'r cwrs hwn yn unol â'r Polisi Hebryngwyr ar gyfer Practisau a Reolir.		
Sicrhau bod yr holl hysbysiadau yn cael eu tynnu oddi ar gefn drysau'r toiledau er mwyn helpu i gefnogi hylendid a phrosesau glanhau llwyddiannus.	4.2 Gwybodaeth ar gyfer Cleifion	Mae'r hysbysiadau wedi'u tynnu oddi ar y drysau; mae'r ardal yn glir ac yn gyson â pholisïau rheoli heintiau.	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd
Sicrhau y caiff poster laith Gwaith ei arddangos ger y dderbynfa a'r ardal aros.	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Mae'r poster nawr wedi'i arddangos ger y dderbynfa a'r ardal aros.	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod meddygon teulu locwm sy'n gweithio yn y practis yn ymwybodol o ganlyniadau atgyfeiriadau.	5.1 Mynediad amserol	Rhoddwyd prosesau ar waith i'w gwneud yn bosibl i wybodaeth / archwiliadau ar atgyfeiriadau gael eu dogfennu gan yr Ysgrifennydd, ac i'r wybodaeth gael ei throsglwyddo i'r clinigydd perthnasol, gan gynnwys meddygon locwm. Gwnaed hyn ar ffurf taenlen a gaiff ei diweddarau bob dydd gan yr ysgrifennydd a'i chadw ar y gyriant a rennir ar gyfer meddygfa Gyffin fel bod modd i bob un o'r clinigwyr gael gafael arni i edrych ar yr atgyfeiriadau. Bydd yr Ysgrifennydd yn tynnu sylw'r meddyg teulu sy'n atgyfeirio at unrhyw	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		broblemau ar unwaith wrth ddiweddarau'r daenlen er mwyn sicrhau cysondeb a lleihau unrhyw oedi.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y ramp o'r maes parcio i'r brif fynedfa wedi'i oleuo'n ddigonol.	6.1 Cynllunio Gofal er mwyn hyrwyddo annibyniaeth	Dywedwyd wrth Adran Ystadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am y goleuadau allanol a chynhaliwyd asesiad ar 18 Tachwedd 2019. Argymhellwyd bod angen rhagor o oleuadau ac mae dyfynbrisiau yn cael eu casglu ar hyn o bryd ar gyfer cwblhau'r gwaith, a disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau ar 31 Rhagfyr 2019.	Tîm Ystadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	31 Rhagfyr 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried pa mor serth yw'r maes parcio a'r ramp i gleifion â symudedd cyfyngedig a defnyddwyr cadeiriau olwyn mewn unrhyw gynlluniau ailwampio yn y dyfodol.		Dogfennwyd hyn drwy'r adroddiad hwn a'r asesiad risg o'r ramp ar gyfer meddygfa Gyffin. Trafodwyd y mater drwy sgysiau a gohebiaeth e-bost â Thîm Ystadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a ddaeth i gynnal asesiad ar 18 Tachwedd 2019. Nid oes unrhyw gamau i'w cymryd ar unwaith oherwydd lleoliad yr adeilad, a'r ffaith bod y maes parcio yn llawer is na'r adeilad. Mae'r ramp yn ymestyn o gwmpas yr	Tîm Ystadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr / Rheolwr y Practis	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>adeilad, gan gynnig y mynediad gorau posibl ar hyn o bryd, a bydd yn rhan o gynlluniau datblygu ar gyfer meddygfa Gyffin yn y dyfodol.</p> <p>Mae cynlluniau'n cael eu trafod ar hyn o bryd o ran adleoli Practisau Conwy; bydd achos busnes ar gyfer datblygiad cyfalaf newydd yn cael ei ddatblygu dros y 12 mis nesaf i'w ystyried gan y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru.</p>		
<p>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried gosod drysau awtomatig wrth y fynedfa mewn unrhyw gynlluniau i ailwampio yn y dyfodol.</p>		<p>Cynhaliwyd trafodaethau â Thîm Ystadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n siarad â Landlord yr adeilad am nifer o faterion gan gynnwys yr Aseiad Risg Tân. Mae cyfarfod yn cael ei drefnu ar hyn o bryd, ond nid yw'r dyddiad wedi'i gadarnhau eto oherwydd diffyg argaeledd. Gan fod hyn yn ystyriaeth, cafodd ei ychwanegu at yr aseiad risg ar gyfer Meddygfa Gyffin</p> <p>Mae cynlluniau'n cael eu trafod ar hyn o bryd o ran adleoli Practisau Conwy; bydd achos busnes ar gyfer datblygiad cyfalaf</p>	<p>Tîm Ystadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr</p>	<p>Aros i ddyddiad y cyfarfod gael ei gadarnhau; erbyn 31 Ionawr 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		newydd yn cael ei ddatblygu dros y 12 mis nesaf i'w ystyried gan y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru.		
Sicrhau bod digon o gardiau sylwadau a beiros ar gael er mwyn i gleifion roi adborth.	6.3 Gwrandio a Dysgu o Adborth	Mae cardiau sylwadau a beiros ar gael erbyn hyn er mwyn rhoi adborth.	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd
Sicrhau bod gwybodaeth gyffredinol ar gael yn hawdd i bob claf am broses GIG Cymru ar gyfer codi pryder/gwneud cwyn, sef 'Gweithio i Wella'.		Caiff posteri a thafleuni eu harddangos yn yr ardal aros ac yn y dderbynfa.	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd
Sicrhau bod taflen gwynion y practis yn cynnwys yr amserlenni cywir yn unol â 'Gweithio i Wella' GIG Cymru a'i bod yn cael ei harddangos yn amlwg ac ar gael i gleifion fynd adref gyda nhw.		Gan fod y Practis yn cael ei reoli'n uniongyrchol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, polisi'r GIG, 'Gweithio i Wella' yw'r polisi a ddefnyddir ar gyfer pryderon cleifion. Caiff y wybodaeth hon ei harddangos yn y dderbynfa ac mae ar gael i bob claf.	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Dylai'r bwrdd iechyd ystyried gwella diogelwch yr adeilad drwy roi clo addas ar y drws sy'n arwain at yr ardal staff ar y llawr cyntaf.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae clo ar ddrws y llawr cyntaf er mwyn atal mynediad i bob ystafell. Cafwyd trafodaethau â Thîm Ystadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am	Tîm Ystadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	31 Ionawr 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>symud y clo hwn i'r drws ar y llawr gwaelod er mwyn gwella diogelwch. Rydym yn aros i'r gwaith gael ei wneud ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, mae'r clo yn parhau i fod ar y drws mynediad ar ben y grisiau, sydd wedi'i gau a'i gloi drwy gydol y dydd, a dim ond y staff sy'n gwybod y cod hwn. Gan fod y drws hwn yn atal mynediad i'r ystafelloedd ar y lloriau uchaf, ni cheir fawr ddim risg ar hyn o bryd.</p>		
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gamau gweithredu a nodir yn yr asesiad risg tân yn cael eu hystyried a'u rhoi ar waith.</p>		<p>Mae'r asesiad risg tân wedi'i anfon at dîm Ystadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 24 Hydref 2019 er mwyn iddo weithredu ar yr holl bwyntiau a godwyd. Mae hwn yn cael ei adolygu gan Dîm Ystadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Landlord yr adeilad ar hyn o bryd ac mae dyddiadau yn cael eu cynnig ar gyfer y cyfarfod er mwyn adolygu'r camau gweithredu a amlygwyd yn yr Asesiad Risg Tân. Bydd angen cynnal asesiad strwythurol a gwneud gwaith strwythurol.</p>	<p>Tîm Ystadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr / Landlord yr adeilad</p>	<p>Aros i ddyddiad y cyfarfod gael ei gadarnhau.</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r adroddiad ar y dyfeisiau cludadwy trydanol er mwyn sicrhau bod yr holl ddyfeisiau'n cael eu profi yn unol â'r amserlen a argymhellir.</p>		<p>Mae'r broses o galibradu'r cyfarpar bellach wedi'i chwblhau, a threfnwyd y bydd yn cael ei chynnal bob 12 mis yn unol â pholisïau'r Darparwr Gwasanaethau. Roedd yr oedi o ganlyniad i broses dendro bresennol i ddarparu gwasanaethau calibradu yn yr holl Bractisau a Reolir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sydd bellach wedi'i ohirio tan y flwyddyn ariannol nesaf, pan fydd tender ar gyfer gwneud y gwaith hwn yn cael ei ddyfarnu i un cwmni. Mae'r darparwyr gwasanaeth presennol yn parhau i wasanaethu'r cyfarpar ar hyn o bryd.</p>	<p>Tîm Ystadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr</p>	<p>Cwblhawyd</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod unrhyw gyfleusterau darparu ffedogau yn y practis yn cael eu hailgyflenwi'n rheolaidd a bod yr holl gyfarpar diogelu personol a gaiff ei storio mewn ardaloedd clinigol o fewn ei ddyddiad defnyddio.</p>	<p>2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi</p>	<p>Mae'r holl stoc bellach yn cael ei hailgyflenwi yn ôl yr angen a chaiff y dyddiadau darfod eu gwirio bob wythnos gan y staff clinigol sy'n defnyddio bob ystafell. Cafwyd gwared ar unrhyw gyfleusterau cyflenwi nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach. Mae'r Tîm Atal Heintiau yn ymwybodol bod angen</p>	<p>Rheolwr y Practis / Nyrs y Practis</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cynnal asesiad ac mae wedi'i drefnu ar gyfer dydd Mercher 27 Tachwedd 2019.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod prosesau digonol ar waith yn y practis i fonitro'r cyfarpar diogelu personol, fel menig tafladwy, er mwyn sicrhau eu bod o fewn eu dyddiad.		Mae archwiliadau wythnosol o'r holl eitemau yn yr ystafelloedd hyn yn cael eu cynnal. Mae'r Cynorthwydd Gofal Iechyd yn archwilio'r holl eitemau darvoudus ym mhob ystafell bob wythnos ac yn cael gwared ar unrhyw eitemau sydd wedi darfod ac yn rhoi rhai newydd yn eu lle. Mae'n rhaid cael gwared ar stoc nad yw'n cael ei defnyddio mwyach.	Nyrs y Practis / Cynorthwydd Gofal Iechyd	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod unrhyw rwygiadau i gadeiriau yn unrhyw un o'r ardaloedd clinigol yn cael eu hatgyweithio, neu fod rhai newydd yn cael eu rhoi yn eu lle, er mwyn hwyluso glanhau effeithiol.		Gwnaeth Rheolwr y Practis a Thîm Ystadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr asesu'r cadeiriau ar 18 Tachwedd 2019. Mae Rheolwr y Practis wrthi'n ceisio dyfynbrisiau ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn yn unol â gweithdrefnau caffael. Ar ôl i'r pris gael ei gadarnhau, eir i'r afael â hyn a'i gwblhau.	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod teils llawr newydd yn cael eu gosod o dan y ddesg yn		Gwnaeth tîm Ystadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr asesu'r ardal hon ar 18 Tachwedd 2019 ac mae wrthi'n cael teils llawr newydd; disgwylir i'r	Rheolwr y Practis	6 Rhagfyr 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
yr ystafell driniaeth er mwyn hwyluso glanhau effeithiol.		gwaith hwn gael ei gwblhau erbyn 6 Rhagfyr 2019.		
Dylai'r bwrdd iechyd ystyried cael llenni tafladwy yn lle unrhyw lenni cotwm.		Mae'r llenni tafladwy yn cael eu harchebu ar hyn o bryd, a chânt eu gosod pan fyddant yn cyrraedd.	Rheolwr y Practis	31 Rhagfyr 2019
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y rhoddir biniau a weithredir â throed yn lle'r holl finiau agored a bod bin gwastraff priodol yn cael ei ddarparu yn y cyfleuster newid cewynnau babanod.		Mae biniau a weithredir â throed wedi cael eu harchebu a chânt eu gosod yn lle'r biniau presennol pan fyddant yn cyrraedd.	Rheolwr y Practis	14 Rhagfyr 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod polisi rheoli heintiau lleol yn cael ei lunio a'i roi ar waith yn y practis.		Cysylltwyd â'r Tîm Atal Heintiau a bydd yn dod i Feddygfa Gyffin ddydd Mercher 27 Tachwedd 2019. Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r rheolaethau atal heintiau ac mae'r hyfforddiant gorfodol yn gyfredol.	Rheolwr y Practis / Tîm Atal Heintiau	31 Rhagfyr 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y practis yn cynnal archwiliad atal a rheoli heintiau a bod cynllun gweithredu yn cael ei roi ar waith.		Cysylltwyd â'r Tîm Atal Heintiau a bydd yn dod i Feddygfa Gyffin ddydd Mercher 27 Tachwedd 2019 er mwyn cynnal archwiliad a llunio cynllun gweithredu i'w roi ar waith gan reolwr y practis.	Rheolwr y Practis / Tîm Atal Heintiau	31 Ionawr 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r teganau sydd ar gael i blant fel rhan o'i archwiliad atal a rheoli heintiau.</p>		<p>Lleihawyd nifer y teganau yn sylweddol, gan adael dim ond y rheini y gellir eu glanhau'n hawdd yn rheolaidd. Disgwylir i'r Tîm Atal Heintiau gynnal asesiad llawn, gan gynnwys y teganau, ar 27 Tachwedd 2019 er mwyn sicrhau nad yw'r teganau sydd ar ôl yn peri risg o heintiau.</p>	<p>Rheolwr y Practis / Tîm Atal Heintiau</p>	<p>30 Tachwedd 2019</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod adolygiadau o achosion ac archwiliadau rhagnodi yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod yr holl staff clinigol yn cael gwybod am y canlyniadau.</p>	<p>2.6 Rheoli Meddyginiaethau</p>	<p>Mae'r Swyddog Arweiniol ar gyfer y Grŵp Cyfeirio Clinigol yn darparu archwiliadau ac adolygiadau achos rheolaidd mewn modd rhagweithiol drwy'r Grŵp Cyfeirio Clinigol. Ar hyn o bryd, mae'r Grŵp Cyfeirio Clinigol yn trafod adolygiadau achos leded Practisau Conwy. Caiff gwybodaeth ei chasglu'n fewnol o Datix.</p> <p>Mae archwiliadau rhagnodi yn cael eu cynnal ar hyn o bryd, gan gynnwys rhagnodi Hydroxycobalamin, rhagnodi gwrth-seicotig, rhagnodi Dementia ac archwiliadau diogelwch.</p> <p>Caiff yr archwiliadau eu rhannu â grŵp Ansawdd a Diogelwch yr Ardal ac yn</p>	<p>Swyddog Arweiniol Penodedig ar gyfer y Grŵp Cyfeirio Clinigol / Fferyllydd / Rheolwr y Practis</p>	<p>Archwiliadau Parhaus Cyfarfodydd misol y Grŵp Cyfeirio Clinigol</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ehangach drwy fecanweithiau adrodd ar Ansawdd a Diogelwch.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y pecyn i feddygon teulu locwm yn cynnwys manylion gweithdrefnau diogelu lleol y practis, ac yn cyfeirio at Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.	2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed	Mae pob Practis a Reolir yn defnyddio polisi Diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sydd ar gael ar y fewnwyd. Mae'r meddygon locwm yn cael gwybod am y polisi a ble i ddod o hyd iddo pan fyddant yn dechrau yn eu rôl. Mae'r pecyn i feddygon teulu locwm yn cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd at ddefnydd yn y dyfodol, i gynnwys polisiâu Diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sy'n gymwys i bractisau meddyg teulu'r Bwrdd Iechyd.	Rheolwr y Practis	31 Rhagfyr 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod system gadarn yn cael ei rhoi ar waith ar gyfer monitro cyfarpar a chyffuriau brys er mwyn sicrhau y gwaredir unrhyw eitemau sydd wedi'u defnyddio neu wedi'u darfod, ac y ceir rhai newydd yn eu lle.	2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	Mae prosesau ar waith i sicrhau bod cyfarpar a chyffuriau brys yn cael eu monitro'n wythnosol, a chânt eu dogfennu ar restr wirio at ddibenion archwilio. Mae Nyrs y Practis yn archwilio'r cyfarpar a'r cyffuriau brys bob wythnos. Pan fydd cyffuriau o fewn 4 mis i'w dyddiadau darfod, ceir rhai newydd yn eu lle yn unol â Phrotocol Practisau a	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Reolir Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar Wirio Cyffuriau Brys.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y canllawiau dadebru ar gael i'r staff eu gweld yn glir a sicrhau bod unrhyw daflenni dosau cyffuriau a argymhellir wrth law mewn argyfwng.		Caiff taflennau doau cyffuriau eu harddangos yn syth uwchben yr ardal lle cânt eu cadw, sef yn y troli dadebru y tu ôl i'r dderbynfa. Mae'r holl staff clinigol yn cael gwybod am hyn pan fyddant yn dechrau yn eu rôl. Mae'r wybodaeth am ddsau cyffuriau hefyd wedi'i harddangos yn glir ar flwch y cyffuriau. Caiff canllawiau dadebru eu cadw ar y troli dadebru y tu ôl i'r dderbynfa ac mae pob aelod o'r staff yn gwybod ble y mae.	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff unrhyw wersi a ddysgwyd o gyfarfodydd ynglŷn â digwyddiadau pwysig eu crynhoi a'u trafod â thîm y practis.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Cynhelir cyfarfodydd y Grŵp Cyfeirio Clinigol bob mis gyda'r tri Practis a Reolir yn Ardal Conwy. Caiff digwyddiadau arwyddocaol a gofnodir yn fewnol a drwy Datix eu trafod. Caiff y rhain eu rhaedru i Dîm y Practis.	Rheolwr y Practis	Parhaus – Misol
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod set o godau READ y cytunir arni yn cael ei rhoi ar waith yn y practis.	3.5 Cadw cofnodion	Mae'r broses o roi codau READ safonol ym mhob un o'r practisau a reolir ar y gweill ar hyn o bryd. Mae codau READ	Rheolwr y Practis / Arweinydd Clinigol /	31 Mawrth 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>priodol i ganiatáu ar gyfer archwilio/hawlio yn cael eu casglu, a fydd, ar ôl trafodaethau â chodwyr READ a chlinigwyr, yn cael eu hychwanegu at un templed. Bydd y templed hwn yn y system glinigol a bydd yn rhoi strwythur cyffredin i'r practisau, ac ar yr un pryd yn casglu'r data cywir.</p>	<p>Pennaeth y Gwasanaeth</p>	
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Mae'n rhaid i'r practis barhau â'i ymdrechion i recriwtio clinigwyr parhaol er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar feddygon teulu locwm a sicrhau parhad gofal i gleifion.</p>	<p>Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd</p>	<p>Bydd ymgyrchoedd recriwtio yn parhau drwy gydol y flwyddyn a bydd swyddi gwag yn cael eu hysbysebu ar NHS jobs. Sicrhawyd hysbysebu pellach drwy Hyfforddi/Gweithio/Byw a Chynadleddau Gofal Sylfaenol. Rhoddir deunyddiau hysbysebu'r feddygfa i unrhyw ddarpar feddyg teulu. Mae'r gwaith o ddatblygu Academi Gofal Sylfaenol Gogledd Cymru hefyd yn cefnogi ymgyrchoedd i recriwtio meddygon teulu ledled Gogledd Cymru. Caiff y wybodaeth hon ei bwydo yn ôl i'r Grŵp Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Practisau a Reolir.</p>	<p>Pennaeth y Gwasanaeth / Rheolwr y Practis</p>	<p>Ymgyrchoedd recriwtio parhaus.</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r bwrdd iechyd adolygu a gwella'r cymorth clinigol yn y practis.		Gall argaeledd staff clinigol beri problemau ar adegau a gwneir pob ymdrech i ddarparu'r nifer cywir o staff clinigol bob dydd. Mae model newydd y gweithlu gofal sylfaenol yn datblygu ar draws practisau a reolir, gyda nifer o weithwyr proffesiynol bellach yn rhan o'r tîm, e.e. Uwch-ymarferwyr Nyrsio, nyrsys ymgynghorol gofal sylfaenol, uwch-ffisiotherapyddion, fferyllwyr. Mae hyn unwaith eto yn gyson â'r anawsterau i recriwtio. Rydym yn parhau i geisio recriwtio arweinydd clinigol drwy hysbysebu a chynnal trafodaethau â meddygon teulu cyflogedig sydd eisoes wedi'u cyflogi yn yr Ardal. Yn y cyfamser, darperir cymorth gan y Cyfarwyddwr Meddygol Ardal.	Cyfarwyddwr Meddygol Ardal / Pennaeth y Gwasanaeth / Rheolwr y Practis	Ymgyrchoedd recriwtio parhaus a datblygu'r gweithlu
Dylai'r bwrdd iechyd rannu unrhyw wersi a ddysgwyd a chamau gweithredu sy'n deillio o gyfarfodydd y clwstwr â holl staff y practis.		Mae cynrychiolwyr o'r practis yn mynychu cyfarfodydd y clwstwr, a gynhelir bum gwaith y flwyddyn. Caiff adborth a gwersi perthnasol o	Rheolwr y Practis	Ar ôl pob un o Gyfarfodydd y Clwstwr

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		gyfarfodydd y Clwstwr eu dogfennu a'u rhannu â'r holl staff.		
Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod gan bob aelod o staff ddisgrifiad swydd sy'n adlewyrchu eu dyletswyddau gwaith presennol	7.1 Y Gweithlu	Mae gan bob aelod o'r staff ddisgrifiadau swydd o'r cyflogwr blaenorol. Anrhydeddwyd y rhain fel rhan o'r broses TUPE. Nid yw dyletswyddau'r staff wedi newid ers trosglwyddo i'r Bwrdd Iechyd, ond bydd y rhain yn cael eu hadolygu. Mae'r gwaith yn parhau ym mhob un o'r practisau a reolir o ran cynnig telerau ac amodau'r Agenda ar gyfer Newid. Mae'r gweithlu yn ymwybodol o'r cais hwn a chaiff ei drafod yn y cyfarfod Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Practisau a Reolir, a gynhleir bob deufis. Mae camau gweithredu ar y gweill i nodi staff, ac ar yr un pryd, safoni Disgrifiadau Swydd ar gyfer newidiadau yn y dyfodol. Mae'r broses hon wedi cymryd cryn amser ac mae gwaith parhaus ar y gweill gan bob Pennaeth y Gwasanaeth a'r Gweithlu i'w chyflawni.	Pennaeth y Gwasanaeth / Rheolwr y Practis	1 Gorffennaf 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n berthnasol i'w rôl.		Cafodd pob aelod o'r staff wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ystod y cyfnod pontio, pan nododd yr adran Adnoddau Dynol pa staff yr oedd angen iddynt gael gwiriadau, a'u cwblhau. Cofnodwyd y wybodaeth berthnasol gan yr adran Adnoddau Dynol a Rheolwr y Practis.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Darryn Thomas

Swydd: Pennaeth y Gwasanaeth, Practisau a Reolir yn Ardal Ganolog Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad: 19 Tachwedd 2019